

Rhagfyr 2022


Creu yfory, gyda'n gilydd

Ein methodoleg derfynol ar gyfer PR24

Rhagair a crynodeb
gweithredol

Ofwat

Trawsnewid y sector dŵr



Mae dŵr yn ganolog i'n bywyd bob dydd. Mae sut mae'r sector dŵr yn perfformio nawr ac yn y dyfodol yn bwysig i bob un ohonom ac i'n hamgylchedd.

Mae'r sector yn wynebu heriau sylweddol ac mae disgwyliadau wedi codi – mae cwsmeriaid, rheoleiddwyr a Llywodraethau'n glir bod angen newid: mwy o wytnwch i sychder, canlyniadau llawer gwell i'r amgylchedd a gwasanaethau mwy ymatebol i gwsmeriaid.

Mae pobl yn cwestiynu pam fod angen gwaharddiadau ar bibellau dŵr pan fo lefel y gollyngiadau yn uchel. Ac maent yn pryderu am y gorddefnydd o orlifau stormydd – mae yna safonau newydd y mae angen i'r sector eu bodloni. Mae rhai o'r heriau'n ymwneud â'n byd sy'n newid. Nid yw newid yn yr hinsawdd yn rhywbeth newydd, ond mae'r angen am weithredu parhaus yn fwy amlwg nag erioed.

Gwella perfformiad

Mae'r sector yn wynebu heriau oherwydd sut mae'n perfformio. Mae gan bob cwmni nifer o rwymedigaethau nad oes modd eu negodi; rhaid iddynt gyflawni arnynt. Os bydd cwmnïau'n methu â chyflawni, byddwn yn camu i mewn.

Arweiniodd camau gorfodi diweddar Ofwat yn erbyn Thames Water a Southern Water at £257 miliwn o gosbau ariannol ac ad-daliadau i gwsmeriaid, a newidiadau sylweddol yn y modd y maent yn cyflawni ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd yn y dyfodol. Ar hyn o bryd rydym yn ymchwilio i gydymffurfiaid â gwahanol rwymedigaethau cyfreithiol gan bob cwmni dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys mewn perthynas â gweithrediad eu gweithfeydd trin dŵr gwastraff. Ni fyddwn yn oedi cyn gweithredu os byddwn yn canfod bod cwmnïau wedi torri eu rhwymedigaethau.

Yn rhy aml nid yw cwmnïau'n cael y pethau sylfaenol yn iawn. Mae angen iddynt wella gwasanaeth i gwsmeriaid. Mae ein ymchwil, ar y cyd â CCW, i brofiad cwsmeriaid o ymatebion cwmnïau i lifogydd carthffosydd mewn cartrefi, wedi amlygu'r gwelliannau sydd eu hangen. Nid yw'r goreuon yn y sector dŵr yn cyrraedd safonau gwasanaeth a welir mewn sectorau eraill – nid oes esgus bod cwsmeriaid dŵr yn derbyn gwasanaeth eilradd.

Mae angen i'r sector hefyd weithredu nawr – cyn PR24 – lle nad yw'n gwneud digon. Mae dal angen gwelliannau sylweddol i leihau'r galw am ddŵr, lleihau toriadau i gyflenwadau a lleihau achosion o lygredd. Caiff cwmnïau eu hariannu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da, ac mae angen iddynt wella meysydd o berfformiad gwael. Yn y cyd-destun hwn, mae'n siomedig mai dim ond 68% o'u lwfansau costau gwella y mae cwmnïau wedi'u gwario ar gyfer y cyfnod 2020-2022. Dylai cwmnïau fod yn defnyddio'r cyllid hwn i gyflawni gwelliannau'n gyflym.

Ailadeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd

Mae angen i gwmnïau gydnabod bod ymddiriedaeth y cyhoedd ynddynt wedi'i cael cnoc wrth i fuddsoddwyr a thimau gweithredol ymddangos fel pe baent yn cael eu gwobrwyo er bod cwmnïau'n methu cyflawni ar gyfer eu cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Mae Ofwat wedi gofyn i gwmnïau sicrhau bod difidendau a chyflogau swyddogion gweithredol sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn adlewyrchu pa mor dda y maent yn perfformio ar gyfer eu cwsmeriaid a'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae gan gwmnïau lawer o ffordd i fynd eto ar y ddau fater. Rydym yn ymgynghori ar newid trwydded i gryfhau atebolrwydd cwmnïau ar ddifidendau a gweithredu ar gyflogau swyddogion gweithredol.

Gall cwmnïau hefyd ailadeiladu ymddiriedaeth drwy sicrhau bod ganddynt y gwytnwch ariannol i ymdopi â tharfiadau neu wyrdroi perfformiad gwael heb gostau pellach i'w cwsmeriaid. Rydym wedi ymgynghori ar newid trwydded i sicrhau bod pob cwmni yn bodloni safonau uwch o wytnwch ariannol.

Angen cynnydd cyflym

Rydym yn rhannu pryder y cyhoedd ynghylch yr angen i weld cynnydd cyflym ar weithrediad gorlifau stormydd. Mewn ymateb i her Ofwat, mae sawl cwmni wedi gwneud ymrwymadau i wella ansawdd dŵr afonydd a lleihau gorlifau stormydd yn sylweddol erbyn 2025. Wrth gwrs, rhaid i bob cwmni fodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol ac rydym yn disgwyl iddynt o leiaf gyfateb i'r ymrwymadau mwyaf uchelgeisiol a wnaed gan y cwmnïau blaenllaw. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r her o wneud gwelliannau hirdymor i ansawdd afonydd er mwyn bodloni dyheadau cwsmeriaid a rhanddeiliaid ac yn disgwyl i PR24 gymryd cam mawr ymlaen i gyflawni gwelliannau sylweddol.

Gwella ymhellach

Mae'r cyhoeddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar sut y bydd y cwmnïau dŵr yn gweithredu rhwng 2025 a 2030 a thu hwnt. Ond mae'n amlwg bod llawer i'w wneud cyn i'r adolygiad prisiau nesaf ddod i rym.


Mae angen i'r sector fod mewn sefyllfa gryfach fel y gall arloesi a gwella ymhellach a chyflawni yn erbyn disgwyliadau newydd yn PR24. Rhaid iddo achub ar y cyfleoedd i symud ymlaen a darparu'r gwasanaethau gwydn y mae pawb yn eu haeddu ac i gyrraedd yn uwch er mwyn cyflawni lefelau gwasanaeth cwsmeriaid a stiwardiaeth amgylcheddol mwy ymestynnol.



David Black
Prif Weithredwr

PR24: adeiladu dyfodol gwell

Mae ein methodoleg ar gyfer PR24 yn nodi sut y byddwn yn ysgogi cwmnïau i ddarparu mwy ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd. Mae'r fethodoleg yn adlewyrchu ein pedwar uchelgais allweddol ar gyfer yr adolygiad:



Mwy i gwsmeriaid a'r amgylchedd



Mae angen i gwmnïau arloesi'n gyson i gyflawni'r canlyniadau gorau i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd am gost y gall pobl ei fforddio. Bydd PR24 yn sicrhau nad yw cwsmeriaid yn talu mwy nag sydd angen iddynt ei dalu, ac yn gwobrwyo dim ond y cwmnïau hynny sy'n uchelgeisiol ac yn cyflawni canlyniadau gwych.

Byddwn yn gwneud hyn drwy osod targedau perfformiad ymestynnol ond cyraeddadwy ar gyfer y sector cyfan. A byddwn yn annog cwmnïau i fynd ymhellach gyda chymhellion syml a phwerus i sicrhau perfformiad gwell lle bo hynny er budd cwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd.


Bydd PR24 yn canolbwyntio ar y canlyniadau allweddol sydd o bwys yn yr hirdymor i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Byddwn yn cymhell cwmnïau i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol, diogelu a gwella'r amgylchedd, a chynnal a gwella iechyd eu hasedau.

Byddwn yn adeiladu ar y mesurau profiad cwsmeriaid a gyflwynwyd yn PR19 i godi safonau ar gyfer cwsmeriaid preswyl, busnes a gwasanaethau datblygwyr. Mae angen newid sylweddol mewn lefelau gwasanaeth cwsmeriaid a byddwn yn cynyddu'r cymhellion ariannol i ysgogi'r newid hwn.

Rydym yn cyflwyno ystod ehangach o ymrwymïadau amgylcheddol gan gynnwys rhai'n ymwneud â'r defnydd o orlifau stormydd, dileu achosion difrifol o lygredd, gwella bioamrywiaeth, gwella ansawdd dŵr ymdrochi a sicrhau gostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Bydd PR24 yn cymhell cwmnïau i gynnal a gwella iechyd asedau, a byddwn yn ysgogi mwy o ffocws ar stiwardiaeth asedau yn yr hirdymor ochr yn ochr â chamau gweithredu yn yr adolygiad prisiau.

Gwrando ar gwsmeriaid

Mae angen i gynlluniau busnes cwmnïau adlewyrchu disgwyliadau cwsmeriaid a chymunedau ar gyfer y gwasanaethau a'r buddion y bydd y cwmni'n eu darparu, a chostau'r gwasanaethau hynny. Ein huchelgais yw bod lleisiau cwsmeriaid preswyl a busnes, a'r gymuned ehangach, yn cael eu clywed yn fwy uniongyrchol ac yn fwy effeithiol yn PR24 nag erioed o'r blaen.



Rydym yn sicrhau bod ymchwil gadarn i ddatgelu blaenoriaethau a safbwyntiau cymharol cwsmeriaid ynglŷn â'r canlyniadau y mae angen i gwmnïau eu cyflawni. Ac rydym yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau gynnal dau gyfarfod 'Eich Dŵr, Eich Llais', sy'n rhoi cyfle i gwsmeriaid, ac i randdeiliaid cymunedol a rhanddeiliaid ehangach, herio cwmnïau ynghylch eu cynlluniau yn uniongyrchol mewn fforwm agored.

Ysgogi uchelgais ac arloesedd

Rydym yn disgwyl i gwmnïau gynnig targedau ymestynnol, a bod yn ymatebol i ddisgwyliadau ehangach. Bydd PR24 yn gwobrwyo cynlluniau uchelgeisiol, ac mae cyfleoedd i gwmnïau arwain y sector - bydd ein dull yn gwobrwyo cwmnïau sy'n mynd yn llawer pellach a chyflymach i fodloni disgwyliadau cwsmeriaid ar ganlyniadau allweddol.

Bydd arloesi yn allweddol. O ran gollyngiadau, er enghraifft, bydd cwmnïau'n cael eu gwobrwyo os gallant osod a chyflawni gostyngiadau beiddgar. Rydym yn disgwyl i gwmnïau fanteisio ar y cyfleoedd i wella perfformiad drwy dechnoleg glyfar a gwell defnydd o ddata.


Rydym hefyd wedi gosod her sero net a fydd yn sicrhau bod y sector cyfan yn gwneud y cynnydd mwyaf am y gost leiaf.

Yn fwy cyffredinol, mae angen i gwmnïau helpu eu cwsmeriaid i ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon - ar hyn o bryd mae'r defnydd cyfartalog o ddŵr yng Nghymru a Lloegr yn 146 litr y dydd, o'i gymharu â tharged o 110 litr y dydd. Bydd PR24 yn cyflwyno cronfa o hyd at £100 miliwn i helpu i ysgogi lleihad trawsnewidiol, parhaus a mesuradwy yn y galw am ddŵr yn genedlaethol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau effeithlonrwydd dŵr.

Bydd PR24 yn parhau i wthio cwmnïau i weithio'n arloesol i gyflawni mwy. Byddwn yn cymell cwmnïau i weithio mewn partneriaeth ag eraill lle bo'n briodol i sicrhau canlyniadau gwell i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Byddwn yn parhau i ddefnyddio cyllid datblygu i ysgogi mwy o gynnydd mewn darparu atebion adnoddau dŵr strategol.

Yn 2020 lanswyd ein Cronfa Arloesedd gwerth £200 miliwn i gefnogi mentrau sy'n dod â manteision sylweddol i gwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd. Rydym yn edrych ymlaen at weld y datblygiadau arloesol llwyddiannus yn cael eu cyflwyno gan gwmnïau yn y cyfnod PR24. A byddwn yn ymestyn ein Cronfa Arloesedd i ddarparu o leiaf £300 miliwn i gefnogi rhagor o syniadau newid sector a ffyrdd o weithio yn PR24.

Gwelliannau hirdymor



Bydd cyflawni yn erbyn disgwyliadau uwch yn gofyn am fuddsoddiadau newydd mawr. Bydd hyn yn creu pwysau cynyddol ar filiau y tu hwnt i effaith chwyddiant. Mae'n hanfodol bod cwmnïau'n cynllunio ac yn darparu atebion gwerth gorau.

Bydd ein dull yn PR24 yn golygu y gellir gwario arian cwsmeriaid yn dda i gyflawni'r hyn sydd ei angen yn yr hirdymor. Bydd cyllid yn cefnogi buddsoddiad gwella effeithlon, yn y tymor byr a'r hirdymor.

Rydym yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau sefydlu eu cynllun busnes pum mlynedd yng nghydestun strategaeth gyflawni hirdymor 25 mlynedd. Mae angen i gwmnïau gynllunio dros yr hirdymor a disgwyliwn iddynt ddefnyddio cynllunio addasol i nodi beth sydd angen ei wneud yn 2025-2030 a pha benderfyniadau y dylid eu hamserlennu yn y dyfodol pan fydd mwy o sicrwydd. Bydd hyn yn arwain at ffocws cliriach ar anghenion hirdymor cwsmeriaid a'r amgylchedd a gwell penderfyniadau ar sut i ddiwallu'r anghenion hynny.

Bydd y strategaethau cyflawni hyn yn canolbwyntio ar y gwelliannau hirdymor sydd eu hangen, yn unol â'r blaenoriaethau a osodwyd ar gyfer Ofwat gan Lywodraethau'r DU a Chymru. A bydd yr adolygiad yn herio cwmnïau i gyflawni'n effeithlon ar draws eu cynlluniau. Byddwn yn caniatáu i arian cwsmeriaid gyllido dim ond costau effeithlon darparu gwasanaethau. Lle nodir buddsoddiadau newydd sylweddol, byddwn yn sicrhau nad yw cwsmeriaid yn talu os bydd cwmnïau'n methu â chyflawni.

Mae ein dull yn galluogi cwmnïau i fuddsoddi nawr mewn gwelliannau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol. Bydd PR24 yn llywio cwmnïau'n fwy cadarn i sicrhau bod costau'r gwelliannau hyn yn cael eu rhannu'n deg rhwng cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid y dyfodol. Mae cwmnïau hefyd yn cael eu cymell i gynnig rhannu buddion yn wirfoddol gyda'u cwsmeriaid, ac i nodi ffyrdd arloesol o gefnogi cwsmeriaid sy'n cael trafferth talu eu bil dŵr.

Rôl buddsoddwyr

Mae gan fuddsoddwyr rôl allweddol mewn darparu'r cyllid sydd ei angen ar gwmnïau i gyflawni eu gweithgareddau - mae'n caniatáu i fuddsoddiad newydd yn PR24 gael ei adennill dros yr hirdymor. Bydd yr enillion y mae buddsoddwyr yn eu cael yn dibynnu ar berfformiad cwmnïau yn ogystal ag adlewyrchu'r risgiau a gymerant a lefel y buddsoddiad. Telir am yr enillion hyn yn y pen draw drwy filiau cwsmeriaid – felly ni ddylai fod yn fwy nag sydd ei angen i ddenu buddsoddiad i'r sector.



Rydym wedi nodi ein methodoleg ar gyfer pennu'r enillion a ganiateir ar gyfalaf. Ddwy flynedd cyn y penderfyniad terfynol, rydym wedi rhoi golwg gynnar ar yr enillion a ganiateir, sef 3.29% (mewn termau real, CPIH). Mae hyn yn uwch na'r adenillion a ganiateir a osodwyd yn PR19, gan adlewyrchu newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae ein ffigur golwg gynnar yn dangos sut y cymhwysir ein methodoleg ac yn rhoi rhif i gwmnïau ei ddefnyddio yn eu cynlluniau busnes. Byddwn yn defnyddio ein methodoleg i bennu'r elw a ganiateir mewn penderfyniadau drafft a therfynol sy'n adlewyrchu data'r farchnad ar y pryd. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn mynegeio cydran o'r adenillion a ganiateir ar ecwiti os yw'r lefelau diweddar o ansefydlogrwydd yn y farchnad yn parhau.

Bydd cwmnïau a buddsoddwyr yn cael eu gwobrwyo am ddarparu mwy o'r hyn y mae cwsmeriaid a'r amgylchedd ei eisiau a'i angen, a lle gallant arloesi i leihau eu costau ymhellach. Lle nad ydynt yn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid, yna bydd yr enillion yn cael eu lleihau. Bydd y potensial ar gyfer llawer mwy o fuddsoddiad yn dod â mwy o gyfleoedd i'r cwmnïau hynny sy'n gallu cyflawni a pherfformio'n dda.

Difidendau sy'n adlewyrchu perfformiad

Rydym yn disgwyl i gwmnïau nodi eu polisiau difidend arfaethedig ar gyfer 2025-2030, gan sicrhau eu bod yn ystyried perfformiad cwmnïau o ran cyflawni rhwymedigaethau ac ymrwymadau i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd, a chadernid ariannol hirdymor. Rydym hefyd yn disgwyl i drefniadau tâl swyddogion gweithredol sy'n gysylltiedig â pherfformiad cwmnïau adlewyrchu darpariaeth ymestynnol i gwsmeriaid a'r amgylchedd a pherfformiad yn gyffredinol.

Defnyddio marchnadoedd i gyflawni

Rydym yn defnyddio marchnadoedd lle mae hynny'n fwyaf effeithiol, gan adlewyrchu blaenoriaethau strategol Llywodraeth y DU a Chymru. Rydym yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau ddefnyddio'r dull Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid ar gyfer pob prosiect penodol dros £200 miliwn gan y gall y dull hwn leihau costau tra'n cynnal ansawdd. Ac rydym yn lleihau'r rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau datblygwyr yn Lloegr i adlewyrchu cystadleuaeth gynyddol, ac yn cyflwyno diwygiadau o blaid y farchnad i'r farchnad bioadnoddau er mwyn ysgogi canlyniadau gwell i gwsmeriaid a'r amgylchedd.

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA
Ffôn: 0121 644 7500

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch I nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gov.uk.